

Sut i lenwi cais am Orchymyn Diwygio

CAIS AM ORCHYMYN DIWYGIO

DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981

Nodiadau Cyfarwyddyd

Pwrpas y nodiadau yma yw eich cynorthwyo i lenwi'r ffurflenni sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno cais am Orchymyn Diwygio.

Sylwer na ddylid defnyddio'r ffurflenni yma i:

- a) wro hawl tramwy
- b) diddymu hawl tramwy am nad oes ei angen.

Gellid defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflenni hyn, ac unrhyw wybodaeth bellach a roddir ynghlwm iddynt, fel tystiolaeth mewn Llys Barn neu mewn Ymchwiliad Cyhoeddus ac fe'ch rhybuddir fod angen sicrhau fod y wybodaeth yn gywir. Rhoddir y wybodaeth hefyd i'r tîrfeddiannwr a/neu bersonau eraill sydd â diddordeb ac fe'i dadansoddir gan Gyngor Gwynedd gan ddefnyddio offer prosesu data electronig.

FFURFLEN 1

Rhaid llenwi ffurflen 1 a'i hanfon i Gyngor Gwynedd yn y cyfeiriad a roddir ar y ffurflen ynghyd ag unrhyw ddatganiadau gan dystion ac unrhyw ddogfennau sy'n cefnogi'r cais.

Ar ddechrau'r ffurflen, ceir bwlch ar gyfer enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud y cais. Os oes mwy nag un person yn gwneud y cais, rhaid cynnwys yr holl enwau a chyfeiriadau.

O dan eich enw a'ch cyfeiriad, mae'r ffurflen mewn pedair rhan, sef 1, 2, 3 a 4.

Ni ddylid llenwi ond un rhan, rhaid dileu'r lleill.

Rhan 1: Dylid cwblhau Rhan 1 os oes gennych dystiolaeth yn honni na ddylid dangos ar y Map Swyddogol llwybr sydd wedi'i gynnwys ynddo. Cofiwch nad yw hwn yn gais i ddiddymu llwybr. Mae'n ymwneud â dangos tystiolaeth newydd yn unig, nad oedd ar gael pan gynhyrchwyd y Map Swyddogol, yn dangos na ddylid cynnwys llwybr ar y Map Swyddogol. Rhaid i chi fanylu ar statws y llwybr dan sylw a nodi ei ddechrau a'i ddiwedd.

Rhan 2: Dylid cwblhau rhan 2 os ydych yn honni fod llwybr wedi'i adael allan o'r Map Swyddogol. Rhaid i chi fanylu ar statws y llwybr dan sylw a nodi ei ddechrau a'i ddiwedd.

Rhan 3: Dylid cwblhau Rhan 3 os ydych yn gofyn am newid statws llwybr. Dylech ddatgan os dymunwch i'r llwybr gael ei uwchraddio neu'i israddio; dylech nodi statws newydd y llwybr; yr hen statws a nodi ei ddechrau a'i ddiwedd.

Rhan 4: Dylid cwblhau rhan 4 os ydych yn gofyn am newid y datganiad ysgrifenedig sydd ynghlwm â'r Map Swyddogol. Dylech ddweud a ydych am ddiwygio neu ychwanegu at y datganiad, gan nodi hefyd statws y llwybr, ei ddechrau a'i ddiwedd a'r manylion yr ydych am eu newid neu eu cynnwys. Os nad oes digon o le ar y ffurflen hon ar gyfer yr holl fanylion angenrheidiol, atodwch ddarn arall o bapur.

Nodwch fod rhaid anfon gyda'r ffurflen hon fap ar raddfa heb fod yn llai na 1/25,000 yn dangos y rhan o'r llwybr sydd dan sylw, pa ran bynnag o'r ffurflen y byddwch yn ei llenwi.

Ar waelod y ffurflen, dylech restru'r holl ddogfennau sy'n cefnogi'ch cais, gan gynnwys gopiâu ohonynt gyda'r ffurflen. Cynhwyswch hefyd unrhyw ddatganiadau gan dystion sydd gennych, yna rhowch y dyddiad a llofnodwch y ffurflen.

FFURFLEN 2

Rhaid cyflwyno ffurflen 2 ar unrhyw berchnogion tir a thenantiaid tir y mae'r rhan berthnasol o'r llwybr yn croesi eu heiddo. Yn ei hanfod, mae'r un fath a Ffurflen 1, ond dylech roi ar ben y ffurflen enw a chyfeiriad y person y cyflwynwch y ffurflen iddo. Dylid cyflwyno ffurflen ar wahân i bob perchennog tir neu denant yr effeithir arnynt.

Yna, nodwch y dyddiad y cyflwynwyd Ffurflen 1 i Gyngor Gwynedd. Dylai'r dyddiad hwn fod yr un fath a'r dyddiad ar waelod Ffurflen 1. Yna, llenwch Ran 1, 2, 3 neu 4 fel y gwnaethoch ar Ffurflen 1, a rhowch ddyddiad a llofnod ar y ffurflen.

FFURFLEN 3

Llenwir ffurflen 3 a'ch enw a'ch cyfeiriad, gan ei llofnodi a'i dyddio a'i hanfon i Gyngor Gwynedd. Tystia hyn eich bod wedi cyflwyno Ffurflen 2 i'r holl berchnogion tir a thenantiaid yr effeithir arnynt.

Ar ôl gwneud yr holl ymholiadau posibl, hwyrach na fyddwch yn gallu dod o hyd i berchennog tir neu denant arbennig ac felly, na ellwch gyflwyno Ffurflen 2 fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Yn yr achos hwn, dylech gysylltu â Chyngor Gwynedd yn y cyfeiriad a ddangosir, a chewch wybod am yr hyn sy'n ofynnol mewn amgylchiadau o'r fath.

Cyffredinol

Noder os na chaiff y ffurflenni hyn eu cwblhau a'u cyflwyno'n gywir, yna gall y cais gael ei annilysu unrhyw bryd a bydd rhaid dechrau'r drefn eto a fydd yn arwain at oedi.